

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 6ed 2012 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Maldwyn Jones (Cadeirydd), Iwan Griffiths, Eifion Davies, Eilir Rowlands, Gwenda Evans, Alwyn Jones, Gethin Morris, Alwyn Roberts, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Adrian Williams, Tina Davies a Gwenda Morris.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

### Eglwys St. Mor a Deiniol, Llanfor.

Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf roedd y cler wedi derbyn manylion pellach ynglŷn â llwybr y pibellau dwr a charthffosiaeth gan y prynwr. Cytunwyd ar bris i ofyn am yr hawl tramwy a'r hawl i osod y pibellau dwr a charthffosiaeth gan ostwng y pris ychydig os oedd angen. Gofynnwyd i'r cler ail gysylltu gyda Richard Jones, Farmers Marts a gofyn iddo drafod gyda phrisiwyr yr Eglwys yng Nghymru ar ran y Cyngor.

### Coed yn gordyfu i'r ffordd ar y B4401 ger Lodge Fron Heulog, Llandderfel.

Roedd Arolygwr Priffyrdd Cyngor Gwynedd wedi ymweld â'r safle ond roedd y coed yn gordyfu o dir preifat ac roedd yn gyfrifoldeb y tirfeddiannwr i'w cynnal. Cytunodd y cynghorwyr i geisio darganfod pwy oedd perchennog y tir er mwyn pasio'r wybodaeth ymlaen i Gyngor Gwynedd.

### Ffordd o bentref Sarnau i Gaerau Uchaf.

Roedd y Cyng. Elwyn Edwards wedi cael cadarnhad bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu ail wynebu'r ffordd cyn diwedd y mis ac y byddai'r ffordd ar gau yn gyfan gwbl am gyfnodau.

### Cofrestr Tir.

Yn dilyn y drafodaeth ym mis Medi roedd y cler wedi cael y ffurflenni perthnasol i gwblhau cofrestru gweddill o eiddo'r Cyngor. Cytunwyd i roi caniatâd i'r cler nol y dogfennau perthnasol o'r banc a thalu'r ffioedd cofrestru perthnasol.

## Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Cyngor Gwynedd.

Rhaglen Waith Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Tachwedd.

### b) Partneriaeth Penllyn.

Copi o gofnodion y cyfarfod diwethaf, 12/9/12 ac agenda'r cyfarfod nesaf 5/11/12.

### c) Un Llais Cymru.

Copi diweddaraf Y Llais.

### ch) Partneriaeth Economaidd Gwynedd.

Copi o'r Adroddiad Blynyddol 2011-12.

### d) Comisiwn Ffiniau i Gymru.

Derbyniwyd copi o gynigion diwygiedig ar gyfer newid Etholaethau Seneddol yng Nghymru.

## **Ceisiadau Cynllunio.**

Derbyniwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-  
NP5/63/L248A - Adeiladu estyniad unllawr i'r tŷ ac adeiladu garej unllawr ar wahân. Llys Mynach, Frongoch.

## **Materion Ariannol.**

### Cynllun Diffyg yn y Cyfrif Claddu.

Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn ein cais ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf, 2011-12.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- i) Cofrestr Tir (cofrestru mynwentydd Frongoch a Llandderfel)
- ii) Dylan Thomas (gofalwr mynwent Llandderfel)
- iii) Cyngor Gwynedd (costau etholiad Mai 2012)

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel, GISDA, Neuadd Bro Derfel, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd, Frongoch/Celyn a Chwmtirmynach.. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

## **Unrhyw Fater Arall.**

### Difrod i ochr y ffordd o'r Tollgate, ar y A5 i Four Crosses, Glanrafon.

Yn dilyn damwain ar y ffordd ger Dwryd roedd yr Heddlu wedi anfon y traffic ar hyd y ffordd gefn. Gan fod cerbydau yn dod o'r ddau gyfeiriad roedd rhai wedi mynd yn sownd yn y ffosydd ac eraill wedi malu ochrau'r ffordd. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd a gofyn i'r swyddogion ymweld â'r safle.

### Arwydd cyfyngiad cyflymder ger stad Cae'r Dderwen, Llandderfel.

Roedd un o drigolion Cae'r Dderwen wedi gofyn a oedd posib symud yr arwydd 30 m.y.a. yn uwch i fynnu o'r fynedfa'r stad. Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater ymlaen i Gyngor Gwynedd.